Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Cymorth Llaeth:

## Nodiadau Cyfarwyddyd



© Hawlfraint y Goron 2020 WG40771 ISBN digidol 978-1-80038-630-3

**AtCynnwys**


| | Rhif tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Pwy sy'n gymwys? | 2 |
| Beth yw gwerth y Grant? | 4 |
| Pryd fydd y Grant yn cael ei dalu? | 6 |
| Sut bydd y Grant yn cael ei dalu? | 6 |
| Sut byddaf yn cael gwybod bod y Grant wedi'i dalu? | 6 |
| Pwerau cyfreithiol | 7 |
| Cymorth Gwladwriaethol | 7 |
| Sut mae gwneud cais am Grant y Cynllun Cymorth Llaeth | 8 |
| Y Broses Apêl | 8 |
| Y Broses Gwyno | 9 |
| Cysylltiadau | 9 |
| Hysbysiad Preifatrwydd | 9 |
| Atodiad A – Telerau ac Amodau | 12 |
| Atodiad B – Cwmnïau mewn Trafferthion | 18 |
| Atodlen 1 – Digwyddiadau Hysbysadwy | 19 |


© Hawlfraint y Goron 2020 ISBN Digidol: 978-1-80038-631-0

## Cyflwyniad

**Cyflwynwyd y Cynllun Cymorth Llaeth er mwyn helpu'r ffermwyr godro hynny y mae amodau eithriadol diweddaraf y farchnad yn sgil COVID-19 wedi effeithio arnynt fwyaf. Cyhoeddwyd y cynllun gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar 9 Mai 2020.**

Mae argyfwng iechyd cyhoeddus COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar rai rhannau o'r diwydiant ffermwyr godro yng Nghymru. Mae'r pandemig byd-eang wedi cael effaith uniongyrchol ar y sector, sy'n chwarae rhan bwysig wrth fwydo'r genedl, wrth i sefydliadau yn y sector gwasanaethu bwyd a lletygarwch orfod cau.

Nod y Cynllun Cymorth Llaeth yw helpu'r ffermwyr godro yr effeithiwyd fwyaf arnynt gan y goblygiadau difrifol i rannau o'r sector. Bwriedir i'r cymorth helpu ffermwyr i dalu eu costau sefydlog er mwyn cynnal capasiti cynhyrchiol ar gyfer llaeth a'u galluogi i gynnal eu safonau amgylcheddol a'u safonau iechyd a lles anifeiliaid.

Bydd hawl gan ffermwyr godro cymwys i gael taliad unigol o hyd at £10,000, er mwyn cwmpasuru 70% o'r incwm a gollwyd i'w helpu i barhau i dalu costau sefydlog a chynnal capasiti cynhyrchu heb effeithio ar les anifeiliaid na'r amgylchedd.

## Pwy sy'n gymwys?

- Bydd y cynllun ar gael i ffermwyr godro gwartheg, defaid, geifr a byfflos a all ddangos tystiolaeth bod y pris a gânt am laeth wedi gostwng 25% neu fwy wrth werthu llaeth o dan gontract i drydydd parti/proseswr.

- Dim ond i ffermwyr godro yng Nghymru y mae'r cynllun hwn ar gael. Fodd bynnag, os ydych yn ffermwr trawsffiniol â thir mewn mwy nag un rhan o'r DU, gallwch wneud cais os yw'r rhan fwyaf o'ch tir wedi'i leoli yng Nghymru a'ch bod wedi cael eich taliad o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) 2019 gan Taliadau Gwledig Cymru (RPW).

- Bydd angen i ffermwyr godro ddangos eu bod wedi dioddef gostyngiad o 25% neu fwy yn y pris cyfartalog a delir am eu llaeth ym mis Ebrill ac wedyn ym mis Mai, o gymharu â mis Chwefror 2020.

- **Ni** wneir taliadau ar gyfer colledion ym mis Mai yn unig.

- Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer mis Mai, rhaid bod ffermwyr godro wedi dioddef colled o 25% neu fwy mewn perthynas â'r pris cyfartalog am eu llaeth ym mis Ebrill yn gyntaf.

- Nid yw ffermwyr sy'n gwerthu llaeth yn uniongyrchol yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cymorth Llaeth, peidiwch â gwneud cais os ydych yn y categori hwn.

- Ni all y rhai a oedd mewn trafferthion ariannol[1] ar 31 Rhagfyr 2019 wneud cais.

Cyfrifo Cymhwysedd

Ceir amrywiadau sylweddol mewn contractau llaeth, strwythurau prisio a faint o laeth a gynhyrchir a bydd angen ystyried yr amrywiadau hynny, felly mae'r canllawiau hyn yn cyflwyno egwyddorion amlinellol ar gyfer pennu cymhwysedd. Er bod gwahaniaeth mewn trefniadau contract, bydd yr egwyddorion a'r dull gweithredu arweiniol yn parhau yr un fath i bob ymgeisydd.

Anogir ffermwyr llaeth sy'n credu y gallent fod yn gymwys ar gyfer y cynllun i gwblhau'r ffurflen gais a chyflwyno eu gwybodaeth ategol. Os caiff yr holl ddogfennau ategol gofynnol eu cyflwyno, bydd Llywodraeth Cymru yn prosesu'r ffurflenni cais cyn gynted â phosibl ac yn hysbysu ymgeiswyr o'r canlyniad.

Caiff cymhwysedd yn erbyn yr amod newid canran ei gyfrifo drwy gymharu'r pris cyfartalog ym mis Chwefror a mis Ebrill 2020 (heb gynnwys bonysau, er enghraifft bonysau Braster Menyn, Protein a Chyfaint a heb gynnwys didyniadau, er enghraifft Ardollau, SCC, Bactoscan a Gwrthfiotig ac ati*). Caiff strwythurau prisio/ pwysoliadau A a B eu hystyried wrth gyfrifo cyfartaleddau.
*Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr

Mis Chwefror 2020 yw'r cyfnod cyfeirio gan mai dyma oedd y mis olaf cyn effeithiau COVID-19, ac felly dyma'r mis cyflawn diweddaraf y gellir ei ddefnyddio wrth gymharu.

Dylai ffermwyr llaeth na wnaethant gynhyrchu llaeth ym mis Chwefror (er enghraifft, ffermwyr sy'n ŵyna/lloia yn y gwanwyn) ac sydd o'r farn eu bod wedi dioddef colledion o 25% neu fwy yn benodol o ganlyniad i COVID-19 gwblhau ffurflen gais a darparu tystiolaeth bellach er mwyn cadarnhau eu sefyllfa.

Y fethodoleg gyfrifo

Mae'r dull cyffredinol ar gyfer cyfrifo'r newid prisiau perthnasol rhwng cyfnodau (yn achos pris unigol a dalwyd ar gyfer yr holl laeth a gyflenwyd) fel a ganlyn:

$$\frac{Pris\ sylfaenol\ Chwefror\ 2020 - Pris\ sylfaenol\ Ebrill\ 2020}{Pris\ sylfaenol\ Chwefror\ 2020} \times 100 = Newid\ pris\ mis\ Ebrill\ (\%)$$

[1]Diffinnir "trafferthion ariannol" yn Erthygl 2(18) o'r Rheoliad Esemptiad Bloc Cyffredinol yn *Atodiad B*.

Enghraifft Ddangosol

- Pris sylfaen cyfartalog[2] mis Chwefror 2020 (heb gynnwys addasiadau): 26 ceiniog y litr
- Pris sylfaen cyfartalog[2] mis Ebrill 2020 (heb gynnwys addasiadau): 18 ceiniog y litr

$$\frac{26cyl - 18cyl}{26cyl} \times 100 = 30.8\%$$

Gwneir yr un cyfrifiad ar wahân ar gyfer mis Mai os bodlonir amod 25% ym mis Ebrill.

Strwythur prisio A/B – cyfrifo'r pris sylfaen cyfartalog

Lle mae strwythur prisio A/B ar waith, caiff y pwysoliad ei ystyried wrth gyfrifo cyfartaleddau. Ceir enghraifft ddangosol isod o fferm sy'n cynhyrchu 300,000 litr mewn mis:

Pris ‘A’ – 25 ceiniog y litr (heb gynnwys addasiadau) x 180,000 litr = £45,000

Pris ‘B’ – 15 ceiniog y litr (heb gynnwys addasiadau) x 120,000 litr = £18,000

Cyfanswm a delir (heb gynnwys addasiadau) = £63,000

$$\boldsymbol{\frac{\pounds 63,000}{300,000\ litr} = 21cyl\ pris\ sylfaen\ cyfartalog}$$

## Beth yw gwerth y grant?

Bydd hawl gan ffermwyr godro cymwys i gael hyd at £10,000, er mwyn darparu 70% o'r incwm a gollwyd (yn seiliedig ar brisiau llaeth cyfartalog) ym mis Ebrill (neu fis Ebrill a mis Mai) i'w helpu i barhau i dalu costau sefydlog a chynnal capasiti cynhyrchu heb effeithio ar les anifeiliaid na'r amgylchedd. Ar ôl cyfrifo'r taliad, caiff ei dalgrynnu i fyny i'r £250 agosaf.

Rhaid i ffermwyr godro cymwys sydd am wneud cais gofrestru ar RPW Ar-lein.

Dogfennau Ategol

Rhaid i chi gyflwyno datganiadau o daliadau a gyhoeddwyd gan eich prynwr llaeth am fisoedd calendr llawn mis Chwefror, mis Ebrill a mis Mai 2020 gan ddangos y canlynol:

- cyfanswm y llaeth a gasglwyd gan y prynwr cyntaf (mewn litrau neu gilogramau) yn ystod y mis calendr hwnnw;
- y pris a dalwyd gan eich prynwr ar gyfer y mis calendr hwnnw;

---

[2] Caiff strwythurau prisio/ pwysoliadau A/B eu hystyried wrth gyfrifo cyfartaleddau.

Mae'n bosibl y bydd angen i Lywodraeth Cymru gysylltu â'ch prynwr llaeth er mwyn cael rhagor o wybodaeth.

Gostyngiadau a wnaed o ran cyfaint

**Ni** chaiff gostyngiadau gwirfoddol a wnaed o ran cyfaint eu hystyried wrth gyfrifo gwerth y grant.

Cynlluniwyd y cynllun i ymateb i benderfyniadau sydd y tu hwnt i reolaeth ffermwyr godro, yn bennaf o ganlyniad i weithredoedd eu prynwyr llaeth. Er bod pwysau arnynt i wneud penderfyniadau i ostwng eu gweithrediadau cynhyrchu o'u gwirfodd, nid oedd y penderfyniadau hyn yn orfodol. Gellid bod wedi gostwng gweithrediadau cynhyrchu am resymau eraill nad oeddent yn ymwneud â COVID-19 hefyd.

Llaeth na chafodd ei gasglu

Mae llaeth na chafodd ei gasglu gan y prynwr llaeth y tu hwnt i reolaeth y ffermwr godro. Lle y bo'n berthnasol a lle y dangosir tystiolaeth o hynny gan ddogfennau ategol, bydd llaeth na chafodd ei gasglu yn rhan o'r ffactorau a ystyrir wrth gyfrifo'r taliad. **Fodd bynnag, rhaid datgan unrhyw incwm a geir o ddefnydd amgen neu gan brynwyr amgen, o bolisïau yswiriant neu unrhyw setliad ariannol â'r prynwr gwreiddiol, ar y ffurflen gais a chaiff ei wrthbwyso yn erbyn y taliad cymorth.**

Caiff llaeth na chafodd ei gasglu ei gyfrifo drwy gyfrifo cyfartaledd faint o laeth a gasglwyd ar y ddau ddyddiad casglu blaenorol cyn y dyddiad pan na chafodd y llaeth ei gasglu.

Cyfrifo gwerth y taliad

a. Cyfrifwch y gwahaniaeth rhwng prisiau cyfartalog[3] mis Ebrill a mis Chwefror x faint o laeth a gasglwyd ym mis Ebrill (a)*
b. Cyfrifwch y gwahaniaeth rhwng prisiau cyfartalog mis Mai a mis Chwefror x faint o laeth a gasglwyd ym mis Mai (b)*
c. *Os yw'n berthnasol, dylid cynnwys faint o laeth na chafodd ei gasglu - Faint o laeth na chafodd ei gasglu gan y proseswr x pris cyfartalog mis Chwefror (c)*

*Ar yr amod bod y golled yn bodloni meini prawf cymhwysedd o dros 25%

Cyfrifwch gyfanswm y colledion yn seiliedig ar ostyngiadau prisiau = ((a*) + (b*) + (c)) x 70%

Caiff cyfanswm y taliad ar gyfer unrhyw ymgeisydd ei gapio ar £10,000, a lle na chyrhaeddir y swm hwnnw, caiff y taliad ei dalgrynnu i fyny i'r £250 agosaf.

[3] Caiff strwythurau prisio/ pwysoliadau A/B eu hystyried wrth gyfrifo cyfartaleddau.

## Pryd fydd y grant yn cael ei dalu?

Bydd y cyfnod ar gyfer gwneud cais ar-lein yn agor ar **18 Mehefin 2020**.

Rhaid cyflwyno ceisiadau wedi'u cwblhau a'r holl ddogfennau ategol erbyn **14 Awst 2020** fan bellaf.

**Ni chaiff eich cais ei brosesu hyd nes y byddwch wedi cyflwyno'r holl ddogfennau ategol.**

**Rhaid cyflwyno'r cais ar-lein i Taliadau Gwledig Cymru erbyn y dyddiad hwn. Ni fyddwch yn gallu cyflwyno'r ffurflen ar ôl y dyddiad hwn, hyd yn oed os gwnaethoch ddechrau llenwi'r ffurflen ar 14 Awst 2020 neu cyn hynny.**

**Fel rhan o'r broses gwneud cais hon, bydd gofyn i chi ddatgan unrhyw gymorth rydych wedi'i dderbyn o dan Fframwaith Dros Dro COVID-19 er mwyn profi na fyddwch yn mynd y tu hwnt i'r lefel cymorth uchaf a ganiateir ac nad oeddech yn gwmni mewn trafferthion[4] ar 31 Rhagfyr 2019.**

## Sut bydd y Grant yn cael ei dalu?

Caiff ceisiadau wedi'u cwblhau, ynghyd â dogfennau ategol, eu hadolygu ac, yn ddarostyngedig i'r holl wiriadau angenrheidiol, disgwylir y bydd y broses dalu yn cymryd tua 10 diwrnod gwaith o dderbyn ffurflen gais wedi'i chwblhau ar-lein a'r dogfennau ategol.

Ni fydd y gwaith o brosesu'r cais yn dechrau hyd nes y byddwch wedi cyflwyno'r holl ddogfennau ategol.

Gwneir yr holl daliadau Grant yn uniongyrchol i'r cyfrif banc. **Sicrhewch fod y manylion banc sydd gan Taliadau Gwledig Cymru yn gywir ac yn gyfredol.**

Gall unrhyw newidiadau diweddar i fanylion eich cyfrif banc arwain at oedi cyn talu.

## Sut byddaf yn cael gwybod bod y grant wedi'i dalu?

Bydd llythyr yn cadarnhau taliad yn cael ei ychwanegu at eich cyfrif RPW Ar-lein.

Dim ond swm y taliad a wneir a fydd yn y llythyr yn cadarnhau taliad y Grant.

Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, cewch eich hysbysu o'r penderfyniad, a'r rhesymau y tu ôl i'r penderfyniad, drwy eich cyfrif RPW Ar-lein.

[4] Gellir cynnig cymorth i gwmnïau nad oeddent mewn trafferthion (yn unol ag ystyr Erthygl 2(18) o'r Rheoliad Esemptiad Bloc Cyffredinol yn *Atodiad B*) ar 31 Rhagfyr 2019, ond a wynebodd drafferthion neu a aeth i drafferthion wedi hynny o ganlyniad i'r achosion o COVID-19.

## Pwerau cyfreithiol

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i roi cymorth ariannol o dan Ddeddf Asiantaeth Datblygu Cymru 1975 a Deddf Datblygu Diwydiannol 1972.

Nodir y telerau a'r amodau ar gyfer gweithredu'r cynllun grant hwn yn *Atodiad A*.

## Cymorth Gwladwriaethol

Ni fydd y grant yn mynd y tu hwnt i'r trothwy ariannol a nodwyd yn y Fframwaith Dros Dro ar gyfer mesurau Cymorth Gwladwriaethol i gefnogi'r economi yn ystod yr argyfwng COVID-19 cyfredol ("y Fframwaith Dros Dro" a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 19 Mawrth 2020). Bydd y Comisiwn yn ystyried bod Cymorth Gwladwriaethol o'r fath yn gydweddol â'r farchnad fewnol ar sail Erthygl 107(3)(b) y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.

Nododd y Deyrnas Unedig (y "DU") gymorth dan y fframwaith dros dro hwn ar ffurf cynllun mantell (Fframwaith Dros Dro COVID-19 ar gyfer awdurdodau'r DU neu'r "mesur") o dan y Fframwaith Dros Dro ar gyfer mesurau Cymorth Gwladwriaethol i gefnogi'r economi yn ystod yr argyfwng COVID-19 cyfredol ("y Fframwaith Dros Dro") a chymeradwywyd hwn gan y Comisiwn Ewropeaidd o dan hysbysiad Cymorth Gwladwriaethol SA.56841 ar 6 Ebrill 2020.

Rhaid i gymorth i gwmnïau sy'n weithgar yn y sector amaethyddol beidio ag ymwneud ag unrhyw un o'r categorïau cymorth y cyfeirir atynt yn Erthygl 1 o Reoliad y Comisiwn (UE) Rhif 1408/2013 (Rheoliad De Minimis Amaethyddiaeth).

Nid yw cronni cymorth gwladwriaethol blaenorol (De Minimis) yn berthnasol i gynlluniau a hysbyswyd o dan y Fframwaith Dros Dro, fodd bynnag, rhaid datgan unrhyw gymorth arall a dderbynnir o dan y Fframwaith Dros Dro ac ni ddylech fynd y tu hwnt i derfyn uchaf y cymorth, sef €100,000 i bob cwmni sy'n weithredol yn y sector amaethyddiaeth.

Cyhoeddir datganiad cymorth gwladwriaethol yn fuan ar ôl talu'r grant.

**Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r trothwyon cymorth perthnasol o dan y Fframwaith Dros Dro, bydd gofyn i chi gwblhau datganiad fel rhan o'r ffurflen gais am grant i gadarnhau na fydd y cymorth rydych chi'n ei dderbyn yn mynd y tu hwnt i'r terfynau.**

**Dylech gysylltu â darparwyr cynlluniau unigol os nad ydynt wedi eich hysbysu eto am unrhyw gymorth gwladwriaethol a gronnwyd gennych o dan y fframwaith dros dro, er enghraifft y Cynllun Benthyciad Tarfu ar Fusnes (CBIL) / Benthyciad Adfer (BBL).**

**Cofiwch na fydd angen datgan Cynllun y Taliad Sylfaenol na chymorth a ddarparwyd o dan Raglen Datblygu Gwledig Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-20.**

Gweler hefyd yr adran *Cymorth Gwladwriaethol a'ch Dyfarniad Grant* o dan *Atodiad A, Telerau ac Amodau*.

## Sut mae gwneud cais am grant y Cynllun Cymorth Llaeth?

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer ymgeiswyr i'r Cynllun Cymorth Llaeth.

Gallwch wneud cais i'r Cynllun Cymorth Llaeth drwy ddefnyddio Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein. Bydd angen cyfrif Porth y Llywodraeth arnoch er mwyn cael mynediad i RPW Ar-lein. Mae'n bosibl bod cyfrif Porth y Llywodraeth gennych eisoes, neu mae'n bosibl y bydd angen i chi greu un. Os oes angen gwybodaeth arnoch ar sut i fewngofnodi neu greu cyfrif Porth y Llywodraeth, cyfeiriwch at ganllawiau Porth y Llywodraeth sydd ar gael yma: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/rpw-ar-lein-sut-i-gael-mynediad-i-borth-y-llywodraeth.pdf.

Mae'r cais ar gael ar yr "Hafan" neu yn adran "Ffurflenni" eich cyfrif. Gellir dod o hyd i ganllawiau cam wrth gam ar sut i lenwi'r ffurflen gais yma: https://llyw.cymru/dairy-support-scheme-using-rpw-online-apply

**Os bydd gan y busnes godro rydych yn gwneud cais ar ei gyfer fwy nag un fuches/praidd godro, dim ond un cais a ganiateir fesul Rhif Cyfeirnod Cwsmer (CRN).** [5]

Mae canllaw llawn ar sut i gofrestru ar gyfer RPW Ar-lein ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/rpw-ar-lein-sut-i-gofrestru neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn am gofrestru neu am gwblhau eich cais am grant, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar **0300 062 5004**. Bydd ein staff yn gallu rhoi cyngor, gan gynnwys y cymorth digidol sydd ar gael i chi.

**Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, gallwch wneud cais am y grant drwy ffonio 0300 062 5004**. **Bydd aelod o'n staff yn eich ffonio nôl ac yn mewnbynnu eich gwybodaeth i'r system ar eich rhan.**[6]

**Noder** mai am oriau cyfyngedig y mae’r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid yn gweithredu ar hyn o bryd o ganlyniad i absenoldebau staff a’r addasiadau sydd wedi’u gwneud ar gyfer gweithio gartref. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am oriau agor ar gael yma: **Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPA**

Mae rhagor o fanylion am Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru (https://llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig).

---

[5] Fel rhan o'r broses gwneud cais, bydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau na dderbynnir mwy nag un cais ar gyfer yr un busnes. Dim ond un taliad a wneir fesul contract llaeth, hyd yn oed os bydd yn gweithredu ar draws rhifau CRN gwahanol.
[6] Mae gofynion safonol RPW yn nodi mai'r ymgeisydd sy'n gyfrifol am y cais.

## Y broses apêl

Os byddwch am apelio yn erbyn y penderfyniad, bydd angen i chi ddarparu esboniad neu fanylion pellach sy'n mynd i'r afael â'r meysydd pryder drwy ddefnyddio eich Cyfrif RPW Ar-lein neu ysgrifennu at Taliadau Gwledig Cymru, Blwch SP 251, Caernarfon, LL55 9DA o fewn 30 diwrnod o gael gwybod canlyniad y cais.

## Y broses gwyno

Os ydych yn credu y bu camweinyddu a'ch bod yn dymuno gwneud cwyn, yna gallwch gwyno drwy weithdrefn Cwynion Llywodraeth Cymru. Mae dolen i'r weithdrefn yma:

https://llyw.cymru/cwyn-am-lywodraeth-cymru

## Cysylltiadau

**Ymholiadau – Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid**

Ar gyfer pob ymholiad, cysylltwch â **Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru**

Gellir cyflwyno ymholiadau drwy RPW Ar-lein ar unrhyw adeg.

Os ydych yn gwsmer trawsffiniol, gallwch gysylltu â'r Asiantaeth Taliadau Gwledig (RPA) ar 03000 200 301. Mae'r llinellau ar agor rhwng 8.30am a 5.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener neu gallwch anfon e-bost i dairyresponse@rpa.gov.uk.

**Gwefan Llywodraeth Cymru**

I gael y wybodaeth ddiweddaraf ewch i https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/amaeth

### Hysbysiad preifatrwydd: grantiau Llywodraeth Cymru

**Sut y byddwn yn trin unrhyw ddata personol rydych chi'n eu darparu mewn perthynas â'ch cais am grant neu gais am gyllid grant.**

Llywodraeth Cymru fydd rheolydd y data ar gyfer unrhyw ddata personol rydych chi'n eu darparu mewn perthynas â'ch cais am grant neu gais am gyllid grant. Bydd y wybodaeth yn cael ei phrosesu fel rhan o'n tasg gyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl graidd a swyddogaethau Llywodraeth Cymru) a bydd yn ein helpu i asesu eich cymhwysedd i gael cyllid.

Cyn rhoi cyllid grant i chi, rydym yn cynnal gwiriadau er mwyn atal twyll ac achosion o wyngalchu arian, ac i wirio pwy ydych chi. Fel rhan o'r gwiriadau hyn, mae'n ofynnol i ni brosesu data personol amdanoch chi gydag asiantaethau atal twyll trydydd parti.

Os byddwn ni, neu asiantaethau atal twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o ran twyll neu wyngalchu arian, efallai y byddwn yn gwrthod darparu'r cyllid grant rydych wedi gwneud cais amdano, neu'n rhoi'r gorau i ddarparu'r cyllid grant presennol i chi.

Bydd yr asiantaethau atal twyll yn cadw cofnod o unrhyw risg o dwyll neu wyngalchu arian, a gallai hyn arwain at bobl eraill yn gwrthod darparu gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth i chi.

Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol mewn ffeiliau yn unol â'n polisi cadw gwybodaeth. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadw eich data personol am 10 mlynedd ar ôl i unrhyw ddyfarniad o gymorth ddod i ben. Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwn yn cadw eich manylion am flwyddyn ar ôl y dyddiad y gwnaethoch eu darparu.

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i:

- gweld y data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch;
- gofyn inni gywiro unrhyw ddata anghywir;
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (dan rai amgylchiadau);
- gofyn i'ch data gael eu dileu (dan rai amgylchiadau);
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Am ragor o fanylion am y wybodaeth a ddelir gan Lywodraeth Cymru a'r defnydd a wneir ohoni, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
E-bost: dataprotectionofficer@llyw.cymru

Y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Rhif ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y datganiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW neu darllenwch ein polisi preifatrwydd llawn yma:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/grantiau-a-thaliadau-gwledig-gdpr-hysbysiad-preifatrwydd.pdf

# Atodiad A - Telerau ac Amodau

1. **Dyfarnu Cyllid**

a) Dyfernir y Grant o dan y Cynllun Cymorth Llaeth.

b) Mae'r Cynllun Cymorth Llaeth yn gweithredu yn ôl disgresiwn, ac nid oes hawl awtomatig i gael unrhyw grant.

2. **Cymorth Gwladwriaethol a'ch Dyfarniad Grant**

a) Rhaid i bob prosiect gydymffurfio â holl reolau cymhwysedd y cynllun a rheolau Cymorth Gwladwriaethol i gael ei ystyried yn gymwys i dderbyn cyllid.

b) O dan Erthygl 107(3)(b) y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, gall y Comisiwn gymeradwyo cymorth i unioni tarfu difrifol ar yr economi (h.y. mae disgresiwn gan y Comisiwn). Er mwyn cynorthwyo gwledydd i ddylunio cynlluniau sy'n cydymffurfio â Chymorth Gwladwriaethol i reoli effaith COVID-19, cyhoeddwyd Fframwaith Dros Dro gan y Comisiwn ar 19 Mawrth 2020. Diweddarwyd y Fframwaith Dros Dro gan y Comisiwn i gynnig hyblygrwydd pellach, a mabwysiadwyd hwn ar 3 Ebrill 2020.

c) Nododd y Deyrnas Unedig (y "DU") gymorth dan y fframwaith dros dro hwn ar ffurf cynllun mantell (Fframwaith Dros Dro COVID-19 ar gyfer awdurdodau'r DU neu'r "mesur") o dan y Fframwaith Dros Dro ar gyfer mesurau Cymorth Gwladwriaethol i gefnogi'r economi yn ystod yr argyfwng COVID-19 cyfredol ("y Fframwaith Dros Dro") a chymeradwywyd hwn gan y Comisiwn Ewropeaidd o dan hysbysiad Cymorth Gwladwriaethol SA.56841 ar 06/04/20.

d) Lefel uchaf y cymorth y gall cwmni ei dderbyn yw €800,000 (€120,000 fesul cwmni sy'n weithgar yn y sector pysgodfeydd a dyframaethu neu €100,000 fesul cwmni sy'n weithgar ym maes cynnyrch amaethyddol sylfaenol.

e) Bydd unrhyw gymorth a ddarperir o dan y mesur hwn yn berthnasol os ydych yn dymuno gwneud cais, neu wedi gwneud cais, am unrhyw gymorth arall a roddir yn seiliedig ar Fframwaith Dros Dro'r Comisiwn Ewropeaidd. Bydd angen i chi ddatgan faint o gymorth a dderbynnir o dan y cynllun Grant hwn i unrhyw gorff arall sy'n dyfarnu cymorth sy'n gofyn am wybodaeth gennych chi ynghylch faint o gymorth rydych chi wedi'i dderbyn. Rhaid i chi gadw'r llythyr dyfarnu Grant a'ch hunan-ddatganiad o'r holl gymorth a dderbynnir o dan y Fframwaith Dros Dro am bedair blynedd ar ôl i gyfnod pontio'r DU yn gadael yr UE ddod i ben a'i ddangos pan gewch gais i wneud hynny gan awdurdodau cyhoeddus y DU neu'r Comisiwn Ewropeaidd.

3. **Awdurdod Statudol**

Gwneir y dyfarniad Cyllid hwn ar yr Amodau ac yn ddarostyngedig iddynt, ac o dan awdurdod Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, sy'n gweithredu'n unol â phwerau yn Neddf Asiantaeth Datblygu Cymru 1975 a Deddf Datblygu Diwydiannol 1972.

**4. Dehongli'r Amodau hyn**

Mae unrhyw gyfeiriad yn yr Amodau hyn at:

**'y Grant'** yn cyfeirio at y taliad a wneir i chi, Derbynnydd y Grant, o dan Amodau Grant Cynllun Cymorth Llaeth;

'**rydych'**, '**chi', 'eich**' yn cyfeirio at Dderbynnydd y Grant;

'**rydym'**, '**ni'**, '**ein'** yn cyfeirio at Weinidogion Cymru;

'**Amodau**' yn cyfeirio at y telerau ac amodau a bennir yn y nodyn hwn;

'**Atodlen**' yn cyfeirio at yr atodlen ynghlwm wrth yr Amodau;

'**Digwyddiad Hysbysadwy**' yn cyfeirio at unrhyw ddigwyddiad a restrwyd yn *Atodlen 1*.

**5. Defnydd o'r Cyllid:**

Rhaid i chi ddefnyddio'r cyllid at ddibenion talu costau sefydlog a chynnal capasiti cynhyrchu heb effeithio ar iechyd na llesiant anifeiliaid na'r amgylchedd yn ystod cyfnod pandemig COVID-19 yn unig ac nid at unrhyw bwrpas arall o gwbl.

**6. Rhagamodau Cyllido**

Pan fydd angen i chi ddarparu gwybodaeth a dogfennau i ni fel tystiolaeth eich bod wedi bodloni rhagamod penodol, amod neu i ategu cais, rhaid i'r wybodaeth a'r dogfennau fod yn dderbyniol i ni ym mhob ffordd. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw wybodaeth a dogfennau nad ydynt yn dderbyniol i ni am unrhyw reswm.

**7. Eich ymrwymiadau cyffredinol i ni:**

Rhaid i chi:

a) ddiogelu'r Cyllid rhag twyll;

b) cydymffurfio â'r holl gyfreithiau neu reoliadau neu gyfarwyddebau swyddogol cymwys, boed yn deillio o'r gyfraith ddomestig, cyfraith yr UE neu gyfraith ryngwladol;

c) cydweithredu'n llawn â Llywodraeth Cymru neu unrhyw ymgynghorydd a benodir gennym i fonitro'r modd y defnyddiwch y Cyllid a'ch cydymffurfiaeth â'r Amodau hyn;

d) hysbysu Llywodraeth Cymru yn ysgrifenedig ynghylch unrhyw newid mewn amgylchiadau a allai effeithio ar gywirdeb y wybodaeth a roddwyd tra bod y cais hwn yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru;

e) sicrhau na fydd eich cyflogeion yn torri telerau Deddf Llwgrwobrwyo 2010 mewn perthynas â'r grant hwn neu unrhyw grant arall. Rhaid i Dderbynnydd y Grant sicrhau bod rheolaethau digonol ar waith i atal llwgrwobrwyo.

**8. Digwyddiadau Hysbysadwy a'u canlyniadau**

a) Rhaid ichi ein hysbysu ni ar unwaith o unrhyw Ddigwyddiad Hysbysadwy (gweler *Atodlen 1*) sydd wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd ond rydym hefyd yn cadw'r hawl i'ch hysbysu chi os credwn fod Digwyddiad Hysbysadwy wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd.

b) Byddwn yn ceisio trafod y Digwyddiad Hysbysadwy gyda chi a chytuno ar ffordd o weithredu i ymateb i'r Digwyddiad Hysbysadwy, ac wrth wneud hynny byddwn yn ystyried difrifoldeb y Digwyddiad Hysbysadwy, ac a ellir ei union ai peidio.

c) Mae hawl gennym i gymryd unrhyw un o'r camau a restrir yn Amod 8(d):

- (i) os na fyddwn, er gwaethaf ein hymdrechion rhesymol, wedi llwyddo i drafod y Digwyddiad Hysbysadwy gyda chi, neu
- (ii) os byddwn yn eich hysbysu nad oes modd unioni'r Digwyddiad Hysbysadwy, neu
- (iii) os cytunir gyda chi ar gamau gweithredu a chithau wedyn yn peidio â dilyn y camau hynny, neu os na fodlonir unrhyw amod sy'n gysylltiedig â'r camau gweithredu (gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, yr amserlen ar gyfer y cyfryw gamau gweithredu), neu
- (iv) os yw'r ffordd o weithredu yn methu ag unioni'r Digwyddiad Hysbysadwy mewn modd sydd wrth ein bodd ni.

d) Os digwydd unrhyw un o'r amgylchiadau a bennir yn Amod 8(c) gallwn eich hysbysu y byddwn yn gweithredu fel a ganlyn:

- (i) tynnu'n ôl y dyfarniad Cyllid; a/neu
- (ii) ei gwneud yn ofynnol eich bod yn ad-dalu'r cyfan neu ran o'r Cyllid ar unwaith; a/neu
- (iii) atal dros dro neu'n derfynol bob taliad pellach o'r Cyllid; a/neu
- (iv) gwneud pob taliad pellach o'r Cyllid yn ddarostyngedig i ba bynnag amodau a bennir gennym ni; a/neu
- (v) tynnu pob swm sy'n ddyledus i ni o dan yr Amodau hyn o unrhyw gyllid arall rydym wedi ei ddyfarnu i chi neu a allai gael ei ddyfarnu i chi; a/neu
- (vi) arfer yn eich erbyn unrhyw hawliau eraill a allai fod gennym mewn perthynas â'r Cyllid.

e) Rhaid i bob ad-daliad Cyllid gael ei wneud cyn pen 28 diwrnod i ddyddiad ein gorchymyn. Rhaid i chi dalu llog ar unrhyw ad-daliadau hwyr ar gyfradd o 1.5% y flwyddyn uwchlaw cyfradd sylfaenol Banc Lloegr o bryd i'w gilydd neu'r cyfryw gyfradd sy'n ofynnol gan y Rheolau Cymorth Gwladwriaethol. Bydd y llog yn cronni fesul diwrnod o'r dyddiad y mae'r ad-daliad yn ddyledus hyd nes yr ad-delir y Cyllid mewn gwirionedd, boed hynny cyn neu ar ôl y dyfarniad. Rhaid i chi dalu'r llog yn ogystal â'r ad-daliad hwyr.

**9. Gofynion Archwilio**

a) Rhaid i chi:

- (i) gynnal cofnodion cyfrifyddu eglur sy'n nodi'r holl incwm a gwariant mewn perthynas â'r Dibenion;

(ii) yn ddi-dâl, ganiatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion o Lywodraeth Cymru neu Swyddfa Archwilio Cymru, ar unrhyw adeg resymol ac ar ôl i chi dderbyn cyfnod rhesymol o rybudd, ymweld â'ch mangre a/neu arolygu unrhyw un neu rai o'ch gweithgareddau a/neu archwilio a gwneud copïau o'ch llyfrau cyfrifon a pha bynnag ddogfennau neu gofnodion eraill a allai, ym marn resymol y swyddog, ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r modd y defnyddiwch y Cyllid. Nid yw'r ymgymeriad hwn yn lleihau dim ar effaith unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill sy'n arferadwy gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant unrhyw un o'r uchod, ac mae'r ymgymeriad hwn yn ddarostyngedig i'r cyfryw hawliau a phwerau statudol hynny;

(iii) cadw'r llythyr hwn a'r holl ddogfennau gwreiddiol sy'n ymwneud â'r Cyllid hyd nes i ni roi gwybod i chi'n ysgrifenedig ei bod yn ddiogel eu dinistrio.

b) O dan baragraff 17 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawliau mynediad eang i ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud ag arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae pŵer ganddo ef a'i swyddogion i'w gwneud yn ofynnol i bersonau perthnasol, sy'n rheoli neu'n dal dogfennau, roi pa bynnag gymorth, gwybodaeth ac esboniadau y gofynnant amdanynt; a'i gwneud yn ofynnol i'r personau hynny ymddangos ger eu bron i'r cyfryw ddiben. Caiff yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff arfer yr hawl hon ar unrhyw adeg resymol.

**10. Rhwymedigaethau i Drydydd Partïon**

a) Nid oes dim yn yr Amodau yn gosod unrhyw rwymedigaeth arnom ni mewn perthynas ag unrhyw rwymedigaeth sy'n ddyledus gennych chi i unrhyw drydydd parti (gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, cyflogeion a chontractwyr).

**11. Mynediad at Wybodaeth**

a) Rydych yn cydnabod ein bod yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (yr "FOIA"), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (yr "EIR") a Deddf Diogelu Data 2018 (y "DPA").

b) Rydych yn cydnabod mai ni, yn ôl ein disgresiwn absoliwt, sy'n gyfrifol am benderfynu naill ai:

(i) i ddatgelu unrhyw wybodaeth a gawsom o dan neu mewn cysylltiad â'r Cyllid, i'r graddau y mae'n ofynnol ein bod yn datgelu'r cyfryw wybodaeth i berson sy'n gwneud cais am ddatgeliad o dan yr FOIA neu'r EIR; a/neu

(ii) bod unrhyw wybodaeth yn esempt o'r gofynion datgelu o dan y Cod, yr FOIA neu'r EIR.

**12. Swyddogaethau Gweinidogion Cymru**

a) Rydych yn cydnabod bod gan Weinidogion Cymru ystod o swyddogaethau a fydd yn parhau i gronni a chael eu diwygio, a bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau ynglŷn â phob swyddogaeth unigol yng ngoleuni'r holl ystyriaethau

perthnasol, gan eithrio pob ystyriaeth amherthnasol.  Rydych yn cytuno na fydd dim sy'n gynwysedig yn yr Amodau hyn neu sydd ymhlyg ynddynt, neu sy'n codi oddi tanynt, neu mewn cysylltiad â hwy, mewn unrhyw fodd yn niweidio, yn llyffetheirio, neu'n effeithio ar swyddogaethau Gweinidogion Cymru neu unrhyw rai ohonynt, nac yn rhwymo Gweinidogion Cymru neu unrhyw rai ohonynt i arfer eu swyddogaethau, neu ymatal rhag eu harfer, mewn unrhyw fodd penodol.

**13. Cyffredinol**

a) Os digwydd i unrhyw un o'r Amodau hyn, ar unrhyw adeg, fynd, neu gael ei ystyried, yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy mewn unrhyw fodd o dan unrhyw gyfraith, nid effeithir ac nid amherir mewn unrhyw fodd ar ddilysrwydd, cyfreithlondeb a gorfodadwyedd gweddill y darpariaethau.

b) Ni fydd methiant neu oedi ar ein rhan ni i arfer unrhyw bŵer, hawl neu rwymedi o dan yr Amodau hyn yn gweithredu fel hepgoriad o'r cyfryw bŵer, hawl neu rwymedi, nac yn ein rhwystro rhag arfer y cyfryw bŵer, hawl neu rwymedi ymhellach, neu arfer unrhyw bŵer, hawl neu rwymedi arall. Mae'r pwerau, yr hawliau neu'r rhwymedïau a ddarperir drwy hyn yn rhai cronnus ac nid ydynt yn eithrio unrhyw bwerau, hawliau neu rwymedïau a ddarperir drwy gyfraith.

c) Rhaid i unrhyw ddiwygiad neu amrywiad i'r Amodau hyn fod yn ysgrifenedig a chael ei lofnodi gennym ni a chithau.

d) Ni chaniateir ichi aseinio, na gwaredu mewn unrhyw ffordd arall, eich hawliau, eich buddion, eich rhwymedigaethau neu'ch dyletswyddau o dan yr Amodau hyn.

e) Bydd amodau 6, 7, 8, 10, 11 a 13(e) a'r cyfryw Amodau eraill y mae angen iddynt, drwy oblygiad, barhau y tu hwnt i daliad olaf y Cyllid, yn parhau felly yn eu llawn rym ac effaith.

f) Llywodraethir a dehonglir yr Amodau hyn yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr fel y'u cymhwysir yng Nghymru, ac mae'r partïon i'r Amodau hyn yn ymostwng i awdurdodaeth unigryw llysoedd Cymru a Lloegr.

**14. Datganiadau**

Rydych yn datgan:

a) bod gennych y pŵer i ymgymryd â'r rhwymedigaethau a bennir yn yr Amodau hyn a'u cyflawni, a'ch bod wedi cymryd pob cam angenrheidiol i awdurdodi ymgymryd â'r rhwymedigaethau a'u cyflawni o dan yr Amodau hyn;

b) nad oes achos o ymgyfreitha na chymrodeddu ar y gweill, yn yr arfaeth, nac wedi ei fygwth hyd y gwyddoch, sy'n cael, neu a allai gael, effaith anffafriol ar eich gallu i gyflawni a chydymffurfio ag unrhyw un o'r Amodau hyn;

c) bod y wybodaeth a gynhwysir yn eich Cais yn gyflawn, yn wir ac yn gywir;

d) bod datgeliad llawn wedi ei wneud i ni o'r holl ffeithiau neu amgylchiadau perthnasol y mae'n ofynnol eu datgelu er mwyn sicrhau y gallwn gael darlun gwir a chywir o'ch

busnes a'ch gweithgarwch (cyfredol ac arfaethedig), neu y dylid eu darparu i unrhyw berson sy'n ystyried darparu cyllid i chi;

e) y byddwch yn hysbysu Llywodraeth Cymru os cewch eich dyfarnu'n euog o unrhyw un o'r troseddau a ganlyn:

    (i) Trosedd sy'n arwain at ddyfarnu pwyntiau am dor rheolau difrifol fel y diffinnir gan Erthygl 90(1) Rheoliad y Cyngor (CE) 1224/2009 ac a nodir yn Atodiad A y Canllawiau ar Dor Rheolau Difrifol a Thwyll;
    (ii) Trosedd amgylcheddol sy'n dod oddi mewn i un o'r categorïau troseddu o dan Gyfarwyddeb 2008/99/EC ac a nodir yn Atodiad B y Canllawiau ar Dor Rheolau Difrifol a Thwyll;
    (iii) Trosedd o dwyll yn ymwneud â chyllid Ewropeaidd.

f) nad ydych chi na'ch busnes wedi'ch dyfarnu'n euog o drosedd y mae Llywodraeth Cymru neu'r UE yn ei hystyried yn 'dor rheol difrifol', neu dwyll, yn ystod y 12 mis cyn gwneud cais.

# Atodiad B – Cwmnïau mewn Trafferthion

**Ffynhonnell: Erthygl 2(18) Rheoliadau Esemptiad Bloc Cyffredinol [7]**

Mae 'cwmni mewn trafferthion' yn golygu cwmni y mae o leiaf un o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol iddo:

(a) Yn achos cwmni atebolrwydd cyfyngedig (ac eithrio BBaCh sydd wedi bodoli ers llai na thair blynedd neu, at ddibenion cymhwysedd i gael cymorth cyllid risg, BBaCh o fewn 7 mlynedd i'w werthiant masnachol cyntaf sy'n gymwys i gael cyllid risg buddsoddiadau yn dilyn diwydrwydd dyladwy gan y cyfryngwr ariannol a ddewiswyd), lle mae mwy na hanner ei gyfalaf cyfranddaliadau tanysgrifedig wedi diflannu o ganlyniad i golledion cronedig. Mae hyn yn wir pan fydd didynnu colledion cronedig o gronfeydd wrth gefn (a'r holl elfennau eraill a ystyrir yn gyffredinol fel rhan o gronfeydd y cwmni ei hun) yn arwain at swm cronnus negyddol sy'n fwy na hanner y cyfalaf cyfrannau tanysgrifedig. At ddibenion y ddarpariaeth hon, mae 'cwmni atebolrwydd cyfyngedig' yn cyfeirio'n benodol at y mathau o gwmni a grybwyllir yn atodiad I o Gyfarwyddeb 2013/34/UE (1) ac mae 'cyfalaf cyfranddaliadau' yn cynnwys, lle bo'n berthnasol, unrhyw bremiwm cyfranddaliadau.

(b) Yn achos cwmni lle mae gan o leiaf rai aelodau atebolrwydd diderfyn am ddyled y cwmni (ac eithrio BBaCh sydd wedi bodoli ers llai na thair blynedd neu, at ddibenion cymhwysedd i gael cymorth cyllid risg, BBaCh o fewn 7 mlynedd i'w werthiant masnachol cyntaf sy'n gymwys i gael cyllid risg buddsoddiadau yn dilyn diwydrwydd dyladwy gan y cyfryngwr ariannol a ddewiswyd), lle mae mwy na hanner ei gyfalaf yn ôl yr hyn ddangosir yng nghyfrifon y cwmni wedi diflannu o ganlyniad i golledion cronedig. At ddibenion y ddarpariaeth hon, mae 'cwmni lle mae gan o leiaf rai aelodau atebolrwydd diderfyn am ddyled y cwmni' yn cyfeirio'n benodol at y mathau o gwmni a grybwyllir yn Atodiad II o Gyfarwyddeb 2013/34/UE.

(c) Pan fydd y cwmni yn destun trafodion ansolfedd casgliadol neu'n cyflawni'r meini prawf o dan ei gyfraith ddomestig ar gyfer bod yn destun trafodion ansolfedd casgliadol ar gais ei gredydwyr.

(d) Pan fydd y cwmni wedi derbyn cymorth achub ac nad yw eto wedi ad-dalu'r benthyciad neu wedi terfynu'r warant neu pan fydd wedi derbyn cymorth ailstrwythuro ac yn parhau'n destun cynllun ailstrwythuro.

(e) Yn achos cwmni nad yw'n BBaCh ble, am y ddwy flynedd ddiwethaf:
   - (i) mae cyfradd dyled llyfr i ecwiti'r cwmni wedi bod yn fwy na 7,5 a
   - (ii) mae cyfradd cwmpas llog EBITDA y cwmni wedi bod yn is na 1,0.

---

[7] https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32014R0651&from=EN

**Atodlen 1**

**Digwyddiadau Hysbysadwy**

1. bod ad-dalu unrhyw ran o'r Cyllid yn ofynnol o dan y Gyfraith (boed o dan Reolau Cymorth Gwladwriaethol neu fel arall);

2. eich bod yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r Amodau;

3. ein bod ni wedi gordalu Cyllid i chi;

4. bod Gweinidogion Cymru yn ystyried bod dull amgen o gefnogi Derbynnydd y Grant wedi ei gynnig gan Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru yn ystod cyfnod y pandemig COVID-19;

5. eich bod yn derbyn cyllid o ffynhonnell arall sy'n gorgyffwrdd/digolledu am yr un golled;

6. bod unrhyw ddatganiad a wnaed yn Amod 13 yn anghywir mewn unrhyw fodd, neu o'i ailadrodd ar unrhyw adeg gan gyfeirio at y ffeithiau a'r amgylchiadau a fodolai bryd hynny, y byddai'n anghywir;

7. bod unrhyw ddeiseb yn cael ei chyflwyno neu benderfyniad yn cael ei basio neu gamau'n cael eu cymryd fel arall mewn perthynas â'ch methdaliad neu ddirwyn i ben, neu fod deiseb yn cael ei chyflwyno am orchymyn gweinyddu yn eich erbyn;

8. bod derbynnydd neu dderbynnydd gweinyddol yn cael ei benodi mewn perthynas â chi, neu mewn perthynas â'r cyfan neu unrhyw ran o'ch asedau;

9. bod moratoriwm mewn perthynas â'r cyfan neu unrhyw un o'ch dyledion, neu fod cyfansoddiad neu gytundeb gyda'ch credydwyr wedi'i gytuno, ei geisio, ei orchymyn neu'i ddatgan;

10. nad ydych yn gallu talu'ch dyledion, neu eich bod yn cyfaddef yn ysgrifenedig nad ydych yn gallu talu eich dyledion;

11. bod unrhyw atafaeliad, gweithrediad, ymglymiad neu broses arall yn effeithio ar unrhyw un o'ch asedau;

12. bod archeb statudol yn cael ei rhoi yn eich erbyn;

13. eich bod chi'n rhoi'r gorau, neu'n bygwth rhoi'r gorau, i gynnal y cyfan neu ran sylweddol o'ch busnes;

14. bod unrhyw ddigwyddiad, neu unrhyw amgylchiadau'n codi, sydd, yn ein barn ni, yn rhoi sail resymol dros gredu y gallech beidio â chyflawni neu gydymffurfio ag unrhyw un o'ch rhwymedigaethau o dan yr Amodau hyn, neu y gallech fod yn analluog i wneud hynny.